# POLISI ENWI A RHIFO STRYDOEDD



Caru·Love Ceredigion

**C Y N N W Y S**


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| **1** | **Rhagarweiniad** | **3** |
| | **a. Polisi Dwyieithog** | |
| **2** | **Gweithdrefn Enwi a Rhifo Strydoedd** | **4** |
| **3** | **Protocol Enwi a Rhifo Strydoedd** | **6** |
| **4** | **Ailenwi a / neu Ail-rifo Strydoedd** | **7** |
| **5** | **Enwau Tai** | **7** |
| **6** | **Eiddo Masnachol** | **8** |
| **7** | **Taliadau** | **9** |
| **8** | **Manylion Cyswllt** | **9** |

**Hanes y ddogfen**

| Fersiwn | Dyddiad | Newidiadau |
|---|---|---|
| F.1 | 2015 | Polisi wedi'i gymeradwyo gan y Cabinet |
| F.2 | 01/09/2016 | Cyflwyno gwadiad fel rhan o'r llythyr i berswadio cleientiaid i beidio â newid enwau tai, er mwyn hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r iaith Gymraeg |
| F.3 | 01/04/2017 | Cyflwynwyd costau newydd |
| F.4 | 01/04/2018 | Newidiadau i raddfa'r costau a newidiadau i'r Polisi Iaith Gymraeg |
| F.5 | 01/04/2019 | Newidiadau i raddfa'r costau |
| F.6 | 01/04/2020 | Cyflwynwyd newidiadau i raddfa'r costau, cyflwynwyd y gost y cytunwyd arni ar gyfer ceisiadau newid enw eiddo. Newidiadau i'r Drefn Enwi a Rhifo Strydoedd. |
| F.7 | 01/04/2021 | Newidiadau i raddfa'r costau |
| F.8 | 01/04/2022 | Newidiadau i raddfa'r costiau a gwybodaeth ychwanegol am gymorth i enwi'ch eiddo neu ddatblygiad newydd (Adran 5). |
| F.9 | 01/04/2023 | Newidiadau i'r raddfa daliadau ac ychwanegu ffi newydd (Cadarnhad cyfeiriad). |
| F.10 | 01/04/2024 | Newidiadau i'r raddfa daliadau ac ychwanegu ffi newydd (Cadarnhad cyfeiriad). |
| F.11 | 01/04/2025 | Newidiadau i'r raddfa daliadau |

## 1. Rhagarweiniad

Mae cyfeiriadau eiddo yn prysur ddod yn fater o bwys. Mae angen dull effeithlon o leoli a chyfeirio at eiddo ar gyfer mwy o sefydliadau, gwasanaethau'r post a chludo, y gwasanaethau brys a'r cyhoedd. Mae llawer o bobl yn camgymryd fod rheoli cyfeiriadau'n rhan o waith y Post Brenhinol. Mewn gwirionedd, Awdurdodau Lleol ar hyd a lled y Deyrnas Gyfunol sydd â'r ddyletswydd o gynnal a chadw'r gronfa ddata ddiffiniol o gyfeiriadau, sef y Rhestr Tir ac Eiddo Genedlaethol.

Pwrpas y Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd yw prosesu'r holl geisiadau i enwi strydoedd a sicrhau y rhoddir cyfeiriad swyddogol eglur a diamwys i bob eiddo yng Ngheredigion. Yn ei dro, bydd hyn yn sicrhau fod holl wasanaethau'r Cyngor, y gwasanaethau brys a gwasanaethau eraill yn medru dod o hyd i gyfeiriad bob eiddo. Nod y Polisi yw annog datblygwyr eiddo a pherchnogion i wneud cais am gyfeiriad swyddogol newydd cyn gynted ag y bo modd. Bydd hynny'n sicrhau y gellir darparu gwasanaethau'r Cyngor a gwasanaethau allanol yn ddiymdroi.

### a. Polisi Dwyieithog

Yn ôl Cynllun Iaith Gymraeg Cyngor Sir Ceredigion (paragraff 7.2.3)

'Bydd y Cyngor, gan ymgynghori â'r Cynghorau Tref a Chymuned, yn hybu ac yn annog defnyddio enwau Cymraeg ar strydoedd newydd a stadau tai newydd.'

Mae awdurdodau lleol ar hyd a lled Cymru wedi mabwysiadu amrywiaeth o ddulliau ar gyfer enwau strydoedd dwyieithog (ac agweddau eraill ar gyfeiriadau). Mabwysiadwyd arfer anffurfiol yng Ngheredigion i annog rhoi un enw ar strydoedd newydd, a hwnnw'n enw Cymraeg (er efallai y bydd rhai elfennau – er enghraifft, enwau personol neu enwau priod eraill – gyda tharddiad ieithyddol gwahanol) ond nid yw hynny'n bolisi swyddogol yr awdurdod, ac felly byddai'n ddoeth ffurfioli'r arfer presennol. Yn unol â hynny, mae'r pwyslais ar ffafrio enwau strydoedd Cymraeg wedi'i ymgorffori yn y protocol newydd.

Mae ein Polisi Rheoli Cyfeiriadau yn ymwneud â'r materion canlynol:

- Enwi a rhifo strydoedd newydd, gan gynnwys y protocol
- Enwi anheddau newydd
- Sut i newid enw eich tŷ
- Ailenwi neu ail-rifo stryd
- Eiddo Masnachol

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i ddatblygiad pob eiddo newydd yng Ngheredigion, p'un a ydyw'n ystâd newydd, annedd unigol, trosi un annedd yn fwy nag un annedd (ac fel arall), neu safle masnachol. Nid oes unrhyw eithriadau.

## 2. Gweithdrefn Enwi a Rhifo Strydoedd

Mae'n ofynnol fod unrhyw un sy'n gyfrifol am ddatblygiadau adeiladu sy'n creu eiddo newydd yn ymdrin ag enwi a rhifo strydoedd a chartrefi newydd cyn gynted â phosib ar ôl sicrhau caniatâd cynllunio a rheoli adeiladu, ac yn sicr unwaith y mae'r datblygiad wedi'i ddechrau.

Mae'n rhaid cyflwyno pob ffurflen gais i'r Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd, yn ddelfrydol ar ffurf electronig (mae'r ffurflenni ar gael ar-lein), ynghyd â:

- Chynllun o'r safle yn nodi'r cynllun newydd yn eglur o ran ei gysylltiadau ag unrhyw strydoedd sydd eisoes yn bod, neu'r ffyrdd o gael mynediad i'r datblygiad.
- Cynllun manwl o'r datblygiad wedi'i nodi'n eglur â rhifau pob plot yn y datblygiad arfaethedig
- Map o'r safle yn dangos maint y stryd(oedd) newydd a'r enw(au) arfaethedig, gyn ystyried protocol y Cyngor. Os nad yw'r datblygwr yn dymuno cynnig enwau stryd ar gyfer y datblygiad newydd, dylai hysbysu'r Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd a fydd yn gwahodd y Cyngor Tref neu Gymuned lleol a Chynghorydd Sir y Ward i gyflwyno awgrymiadau.
- Os yw'n briodol, cynllun mewnol ar gyfer unrhyw eiddo sydd wedi'u rhannu'n unedau neu'n lloriau – er enghraifft, blociau o fflatiau.
- Codir tâl os yw'r datblygiad yn cynnwys tri o blotiau neu fwy. Dylid cynnwys siec yn daladwy i Gyngor Sir Ceredigion gyda'r cais.

Bydd y Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd yn ymchwilio i Restr Tir ac Eiddo Lleol yr awdurdod i sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro neu ddyblygu posib o ran y cynllun enwi/rhifo a gynigir yn ardal leol y datblygiad arfaethedig. Os bydd gwrthdaro, gofynnir i'r datblygwr gyflwyno cynigion gwahanol.

**<u>Enwau Strydoedd:</u>** Pan nad oes gwrthdaro, bydd y Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd'n dechrau'r broses ymgynghori. Cyflwynir yr enwau a gynigir i'r Cyngor Tref neu Gymuned lleol ac i Aelod Etholedig y ward a gofynnir iddynt gyflwyno unrhyw sylwadau ymhen 28 diwrnod. Os na cheir ymateb derbynnir hynny fel cymeradwyaeth. Os bydd y Cyngor Cymuned neu Aelod Etholedig y ward yn gwrthwynebu'r enw(au) a gynigir, dylent gyflwyno eu sylwadau yn ysgrifenedig i'r Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd cyn diwedd y cyfnod ymgynghori, gan ddatgan eu rhesymau dros wrthwynebu a chynnig enw(au) gwahanol. Bydd y Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd yn cyflafareddu rhwng yr holl bartïon hyd nes y daw pawb i gonsensws. Os na cheir cytundeb rhwng y gwahanol bartïon, cyfeirir y mater at y sawl sy'n dal y Portffolio a/neu'r Cabinet, am benderfyniad terfynol.

**<u>Enwau Tai/Adeiladau:</u>** Nid oes angen mynd drwy'r broses ymgynghori wrth enwi adeiladau. Os na fydd gwrthdaro bydd y Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd'n ychwanegu enw(au)'r adeilad(au) newydd at y Rhestr Tir ac Eiddo Lleol.

Ar ôl enwi'r stryd(oedd) newydd, bydd y Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd'n dyrannu rhifau i bob tŷ ar y safle. Yna anfonir atodlen o'r cyfeiriadau newydd at y datblygwr, a ddylai yn ei dro ddarparu'r wybodaeth i'w asiantau (er enghraifft, yr asiant gwerthu tai sy'n ymwneud â gwerthu'r eiddo) a thrwy hynny unrhyw ddarpar brynwyr. Bydd y prynwyr yn medru cael

cyfeiriad cywir yr eiddo cyn cwblhau'r gwaith adeiladu, a bydd hynny'n dod â sicrwydd ac eglurder i'r prosesau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â phrynu a gwerthu eiddo.

Rhoddir yr wybodaeth am y cyfeiriad newydd ar Restr Tir ac Eiddo Lleol yr awdurdod gyda statws ***dros dro***, hyd nes y cwblheir y datblygiad, ac wedi hynny fe'i newidir i statws ***cymeradwy***. Bydd y Rhestr Tir ac Eiddo yn anfon gwybodaeth electronig i ddiweddaru holl gronfeydd data eraill y Cyngor sy'n gysylltiedig. Hefyd, anfonir gwybodaeth am y cyfeiriad newydd i'r ganolfan Genedlaethol, ac o'r fan honno fe'i dosberthir i sefydliadau allanol. Bydd y Swyddog Enwi a Rhifo Strydoeddhefyd yn hysbysu'r cwmnïau cyfleustodau mawr ynghylch y datblygiadau newydd.

Yna bydd y Post Brenhinol yn dyrannu cod post ar gyfer y datblygiad newydd. Bydd y Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd'n anfon yr wybodaeth honno at y datblygwr a ddylai yn ei dro ddiweddaru ei wybodaeth gyswllt. Caiff y Cod Post hefyd ei ychwanegu at y Rhestr Tir ac Eiddo Lleol.

## 3. Protocol Enwi a Rhifo Strydoedd

Diben pennaf y protocol yw sicrhau cyfeiriadau eglur a diamwys yn y sir er budd y trigolion a'r sefydliadau – yn statudol a masnachol – sy'n eu gwasanaethu.

Mae'r Cyngor am fabwysiadu dull cydsyniol sy'n dryloyw i bawb. Wrth weithio i bennu enw stryd newydd, dylai'r holl bartïon â buddiant roi sylw i'r canllawiau canlynol:

- Wrth gynnig enw newydd bydd y Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd yn gorfodi un enw ar unrhyw stryd newydd, a hwnnw'n enw Cymraeg.
- Dylai enw'r stryd newydd adlewyrchu hanes y safle neu gydnabod daearyddiaeth yr ardal. Anogir datblygwyr ac unrhyw un arall â buddiant yn y safle i ymgynghori â'r Archifydd Sirol, Curadur Amgueddfa'r Sir, y Cyngor Cymuned neu Gymdeithasau Hanes lleol a fydd yn medru rhoi cyngor ar y materion hyn.
- Dylid gwneud pob ymdrech i osgoi enwau strydoedd a ddefnyddir yn aml. Hyd yn oed os ydynt mewn gwahanol rannau o'r sir, gallai hyn achosi amwyster i wasanaethau cludo a'r gwasanaethau brys, yn enwedig felly os yw'r codau post yn debyg i'w gilydd.
- Dylid osgoi defnyddio dau enw sy'n swnio'n debyg yn yr un ardal (er enghraifft, Ffordd y Llyn a Ffordd y Glyn). Rydym hefyd yn argymell, lle bo hynny'n bosib, y dylai datblygwyr osgoi defnyddio'r un enw ond â rhagddodiaid gwahanol (er enghraifft, Heol yr Eglwys, Rhodfa'r Eglwys, Coedlan yr Eglwys) yn yr un ardal.
- Wrth roi enw newydd ar stryd dylid osgoi defnyddio atalnodi diangen fel y bo'n bosibl. Er enghraifft, mae **Golwg y Castell** yn well na **Golwg-y-Castell**.
- Ni ddylai enwau strydoedd fod yn anodd eu hynganu nac yn drafferthus eu sillafu. Mae'n rhaid iddynt fod yn eglur ac yn hawdd eu dweud dros y ffôn.
- Ni dderbynnir enwau a allai gythruddo pobl.
- Dylid osgoi cyfeirio at rywun sy'n fyw neu sydd wedi marw'n ddiweddar.
- Caiff pob eiddo ei rifo a/neu ei enwi yn ôl y stryd sy'n darparu mynediad uniongyrchol i'r eiddo hwnnw.

Mae'r canllawiau cenedlaethol ar rifo yn aml yn ystyried datblygiadau maestrefol, ac anaml y bydd hynny'n berthnasol mewn siroedd gwledig fel Ceredigion. Serch hynny, er mwyn sicrhau cysondeb dyma'r canllawiau ar arfer gorau:

- Dylid rhifo strydoedd newydd ag eilrifau ar y dde ac odrifau ar y chwith, wrth deithio ymaith o ganol y dref. Dylid rhifo ffyrdd ymyl mewn trefn esgynnol gan ddechrau o'r ffordd o bwys mwyaf y maent yn troi oddi arnynt.
- Dylid rhifo datblygiadau unigol neu fach yn unol â'r cynlluniau sydd eisoes yn bod, gan ddefnyddio ôl-ddodiaid (er enghraifft, 12A, 12B) fel y bo'n briodol.

## 4. Ailenwi a/neu Ail-rifo Strydoedd

Ar adegau prin efallai y bydd angen ailenwi neu ail-rifo stryd. Ni ddylid gwneud hyn ond pan fetho popeth arall, ar adegau:

- pan mae dryswch ynglŷn ag enw a/neu gynllun rhifo stryd
- pan mae grŵp o breswylwyr yn anfodlon ar enw'r stryd
- pan adeiladir tŷ/tai newydd ar stryd ac mae gofyn ail-rifo tai eraill i gynnwys yr un/y rhai newydd
- pan gredir bod nifer o dai ag enwau'n unig yn peri dryswch i ymwelwyr, gwasanaethau cludo neu'r gwasanaethau brys.

Cysylltir â'r preswylwyr presennol a rhoddir ystyriaeth i'w barn. Byddwn hefyd yn ymgynghori â'r Post Brenhinol i gael eu barn hwythau ar y mater. Wrth newid enw stryd bydd y Cyngor yn gofyn i'r trigolion lleol bleidleisio ar y mater, a bydd yn ofynnol cael mwyafrif o ddau draean o leiaf cyn gwneud y newid.

## 5. Enwau Tai

Lle bynnag y bo modd, dylid ymgorffori cartrefi newydd yn y cynlluniau rhifo sydd eisoes yn bod, gan ddefnyddio ôl-ddodiaid (er enghraifft, 16A, 16B) fel y bo'n briodol. Wrth adeiladu ar safle adeilad sydd wedi'i ddymchwel, gall yr adeilad newydd etifeddu'r rhif oedd yn bodoli.

Nid yw'r Cyngor na'r gwasanaethau brys yn ffafrio rhoi dim ond enw ar dŷ, gan fod rhifau'n ei gwneud yn haws dweud ar ba ran o'r ffordd y saif unrhyw eiddo. Mewn ardaloedd gwledig lle nad oes cynllun rhifo, byddwn yn derbyn enw adeilad i adnabod yr eiddo.

Gellir ychwanegu enw tŷ at gyfeiriad post sydd eisoes yn bod, ond ni all ddisodli rhif y tŷ y mae'n rhaid ei ddefnyddio bob amser.

<u>Tai newydd eu hadeiladu</u>: mae'n bwysig pennu cyfeiriadau cymeradwy tai sydd newydd eu hadeiladu cyn gynted â phosib, yn ddelfrydol yn ystod y cyfnod adeiladu. Dylai'r datblygwr neu'r perchennog gysylltu â'r Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd i'w hysbysu ynghylch yr enw(au) a gynigir ar gyfer yr annedd neu'r anheddau newydd. O ran Cynllun Iaith Gymraeg Ceredigion, mabwysiadwyd arfer anffurfiol o annog rhoi un enw ar eiddo newydd, a hwnnw'n enw Cymraeg. Os yw'r enw presennol yn un gwreiddiol a hanesyddol, yn enwedig felly os yw'n enw Cymraeg hanesyddol, yna dylid anfon llythyr safonol at y cwsmer yn gofyn iddynt ailystyried, a chadw'r enw presennol (hyd yn oed os yw'r enw newydd a gynigir yn un Cymraeg). Mae'r llythyr safonol yn rhoi 10 diwrnod i'r cwsmer ailystyried y penderfyniad. Fodd bynnag, y cwsmer sydd â'r hawl i benderfynu yn y pen draw (nid oes awdurdod gan Gyngor Sir Ceredigion yn hyn o beth).

Bydd y Swyddog yn ymchwilio i Restr Tir ac Eiddo Lleol yr awdurdod i sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro neu ddyblygu posib o ran yr enw a gynigir yn ardal leol y datblygiad arfaethedig. Os bydd gwrthdaro, gofynnir i'r datblygwr gyflwyno cynigion gwahanol. Os na fydd gwrthdaro, caiff yr enw newydd ei gymeradwyo a'i ychwanegu at y Rhestr Tir ac Eiddo Lleol, ac o'r fan honno fe'i dosberthir i wasanaethau eraill y Cyngor (er enghraifft, Treth y Cyngor) ac

asiantaethau allanol fel y Post Brenhinol. Pan fydd y Post Brenhinol yn dyrannu cod post newydd ar gyfer yr annedd, bydd y Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd yn hysbysu'r datblygwr/preswylydd yn unol â hynny.

Newid enw tŷ: os bydd preswylwyr yn dymuno newid enw eu tŷ, gallant wneud hynny drwy gyflwyno'r newid a gynigir i'r Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd yn ysgrifenedig, drwy ddefnyddio'r ffurflenni cais sydd ar gael ar-lein neu ar gais (mae hyn yn ofyniad cyfreithiol). Sicrhewch fod siec sy'n daladwy i Gyngor Sir Ceredigion ynghlwm â'r cais (mae opsiynau talu eraill ar gael – gweler y wefan).

O ran Cynllun Iaith Gymraeg Ceredigion, mabwysiadwyd arfer anffurfiol o annog rhoi un enw ar eiddo newydd, a hwnnw'n enw Cymraeg. Os yw'r enw presennol yn un gwreiddiol a hanesyddol, yn enwedig felly os yw'n enw Cymraeg hanesyddol, yna dylid anfon llythyr safonol at y cwsmer yn gofyn iddynt ailystyried, a chadw'r enw presennol (hyd yn oed os yw'r enw newydd a gynigir yn un Cymraeg). Mae'r llythyr safonol yn rhoi 10 diwrnod i'r cwsmer ailystyried y penderfyniad. Fodd bynnag, y cwsmer sydd â'r hawl i benderfynu yn y pen draw (nid oes awdurdod gan Gyngor Sir Ceredigion yn hyn o beth). Ar yr amod nad oes unrhyw amwysedd nac unrhyw eiddo arall ag enw tebyg yn yr un ardal, cymeradwyir newid enw'r tŷ ac fe'i hychwanegir at y Rhestr Tir ac Eiddo Lleol.

Cymorth i Enwi Eich Eiddo neu Ddatblygiad Newydd: Os oes angen cymorth arnoch i enwi'ch eiddo neu stryd newydd gallwch ymweld â'r rhestr o enwau lleoedd hanesyddol i gael awgrymiadau. Mae Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru yn adnodd arloesol ac arloesol sy'n cynnwys cannoedd o filoedd o enwau lleoedd a gasglwyd o fapiau hanesyddol a ffynonellau eraill. Mae'n rhoi cipolwg hynod ddiddorol ar ddefnydd tir, archaeoleg a hanes Cymru.

https://enwaulleoeddhanesyddol.cbhc.gov.uk/enwaulleoedd/map

## 6. Eiddo Masnachol

Nod y Cyngor yw dyrannu cyfeiriad eglur a diamwys i bob eiddo yng Ngheredigion, gan gynnwys eiddo masnachol. Er mwyn osgoi anhrefn a dryswch, dylai cyfeiriad pob eiddo masnachol – fel y bo'n bosib – fod yn gyfeiriad cynaliadwy y gellir ei ailddefnyddio gan ba bynnag fusnes neu sefydliad sy'n meddiannu'r eiddo.

Enghraifft amlwg yw cynlluniau rhifo ac enwi ystadau diwydiannol a pharciau manwerthu. Dylid rhoi rhifau uned ar bob eiddo masnachol mewn llefydd felly, a bydd y rheiny'n aros yr un fath, pa bynnag gwmni sy'n meddiannu'r eiddo. Dylid arddangos y rhif uned mewn lle amlwg ar bob adeilad. Dylai busnesau nad ydynt ar ystadau diwydiannol neu mewn parciau manwerthu gynnwys y rhif priodol yn eu cyfeiriadau, gan ddilyn trefn rifo'r stryd, er enghraifft,

Boots the Chemist
53 – 55 Ffordd y Môr
Aberystwyth.

Pan nad oes trefn rifo ar unrhyw stryd, mae'n rhaid i'r cwmni neu'r sefydliad fabwysiadu enw ar yr adeilad, er enghraifft,

Gwasanaethau Rheoli Eiddo Keith Williams
Tŷ'r Tŵr
Stryd y Priordy
Aberaeron

Pan nad oes enw ar yr adeilad, bydd y Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd yn rhoi cymorth a chyngor i greu un, gan gadw protocol yr awdurdod mewn cof.

## 7. Taliadau

Fel rhan o'r drefn ar gyfer Enwi a Rhifo Strydoedd, mae Cyngor Sir Ceredigion yn codi tâl am ddatblygiadau newydd (3 plot a mwy).

**<u>Graddfa daliadau</u>**

| Categori | Tâl (yn cynnwys TAW) |
|---|---|
| Newid enw eiddo | £73.50 |
| Cofrestru plot sengl | £107 |
| Cofrestru plot sengl a fflatiau | £107 a £17 am bob fflat |
| Enwi a rhifo datblygiad - 2+ plot | £249 a £34 am bob plot |
| Cadarnhad o gyfeiriad | £34 |

## 8. Manylion Cyswllt

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu os hoffech drafod unrhyw ran o'r polisi hwn, cysylltwch â'r Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd:

Rhif ffôn: 01545 572115

E-bost: canolfanrheolicyfeiriadau@ceredigion.gov.uk

Post: Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd
Cyngor Sir Ceredigion
Penmorfa
ABERAERON
SA46 0PA.